Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 MAI 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 – 2026/27 |

1.0 **Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 I gyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor ei gymeradwyo.

**2.0 Cefndir ac Ystyriaethau**

2.1 Mae'r CATC yn ddogfen drosolwg sy'n adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'n amlinellu dull strategol GwE o reoli ei gyllid ac yn amlinellu'r materion ariannol fydd yn wynebu GwE yn y pedair blynedd nesaf. Mae cyflawni'r strategaeth yn ddibynnol ar yr adnoddau fydd ar gael trwy gyfrwng setliadau Llywodraeth Cymru (LlC) ac ar lwyddiant GwE yn alinio adnoddau â blaenoriaethau ei wasanaeth.

2.2 Mae'r CATC yn amlinellu siâp cyffredinol cyllideb GwE ac yn amlinellu model o'r gofynion ariannol ar gyfer cyflawni lefelau gwasanaeth yn y tymor canolig. Mae hyn yn cynnig fframwaith fel y gall y Cyd-bwyllgor a swyddogion ddatblygu dyraniadau cyllideb blynyddol manwl.

2.3 Bydd y CATC yn adnodd allweddol ar gyfer rheoli cyllid yn rhagweithiol. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i osod cyllideb flynyddol ac i sicrhau bod anghenion adnoddau GwE am y flwyddyn sydd i ddod yn ddigonol ac wedi'u halinio â'r blaenoriaethau cywir. Mae hefyd yn caniatáu adnabod gofynion cyllido rhagamcanol y dyfodol yn ddigon buan fel y gellir cynllunio gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r lefelau cyllid disgwyliedig.

2.4 Adolygwyd y CATC yn dilyn cytundeb ar y gyllideb graidd ar gyfer 2023/24.

**3.0 Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo'r adroddiad a'r gweithredu a nodwyd.

**4.0 Goblygiadau Ariannol / Risgiau**

4.1 Mae'r CATC yn adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r cynllun yn ddibynnol ar ffactorau sydd y tu allan i reolaeth GwE ac yn gofyn am fonitro manwl ac ystyriaeth er mwyn cyfyngu ar yr effaith.

**5.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

7.1 Paratowyd yr adroddiad hwn drwy ymgynghori â Swyddog Cyllid Adran 151 yr awdurdod lletyol, yn dilyn cyfarwyddyd gan y Prif Weithredwyr, sy'n cefnogi'r argymhelliad.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf wedi cydweithio gyda Rheolwr Gyfarwyddwr GwE er mwyn paratoi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 – 2026/27, a cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol a gynhwysir yn amcangyfrifon teg.